**PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY**

**(Ystafelloedd Pwyllgor A/B - Canolfan Ddinesig Castell-nedd)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 24 Ionawr 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | S.Bamsey, D.Cawsey, N.T.Hunt, H.N.James, S.A.Knoyle, S.M.Penry, S.Pursey a/ac S.Rahaman |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Brennan, C.Morris, L.Beynon, N.Headon, N.Jones a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave |

---

1. **DATGANIADAU O FUDD**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd S Bamsey | - | Adroddiad ar y cyd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio - oherwydd bod ei berthynas yn berchen ar eiddo a allai fod yn derbyn iawndal. |

2. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

3. **YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB AC ARBEDION DRAFFT CYFARWYDDIAETH YR AMGYLCHEDD AR GYFER 2020/21**

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o wybodaeth atodol Adfywio a Datblygu Cynaliadwy ynghylch cynigion arbedion ar gyfer cyllideb

Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio, fel y nodwyd yn adroddiad y Cabinet ar 20 Ionawr, 2020.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr arbedion ar gyfleusterau cyhoeddus, ac esboniodd swyddogion y bu newid i'r ddeddfwriaeth gan olygu na fyddai angen talu ardrethi. Caiff adroddiad ei gyflwyno i Fwrdd y Cabinet yn y dyfodol.

Esboniodd swyddogion fod cynnydd wedi bod yn yr incwm o ganlyniad i godi'r rhent ychydig yng Nghanolfan Fusnes Sandfields; byddai hyn yn golygu ein bod yn arbed ychydig o arian.

Dywedodd y swyddogion wrth yr aelodau fod nifer yr adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor wedi lleihau dros y blynyddoedd, ac roedd hyn yn golygu y bu gostyngiad o £25,000 ar gyfer cynnal a chadw adeiladau. Nodwyd bod y cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r adeiladu sy'n eiddo i'r cyngor, a rhoddwyd rhaglen dreigl ar waith i arolygu'r adeiladau hyn yn flynyddol, er bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch yr angen am ragor o unedau diwydiannol a chefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli. Esboniodd y swyddogion fod Tîm Cefnogaeth Busnes y cyngor ar gael i gynghori busnesau a'u helpu â'u ceisiadau am grantiau etc. Tynnodd y swyddogion sylw at y ffaith bod nifer o fusnesau lleol yn llwyddiannus, ac roedd un busnes yn cyflogi dros 35 aelod o staff. Er bod angen cymorth ychwanegol gyda thaliadau ar rai busnesau, roedd rhai busnesau a oedd yn cael trafferth yn gallu talu'r arian sy'n ddyledus dros gyfnod o amser. Dywedodd swyddogion fod y cyngor yn awyddus i ehangu ar fusnesau lleol ac roedd y staff yn ymrwymedig i sicrhau bod gan fusnesau gymaint o gefnogaeth â phosib.

Atgoffwyd y Cynghorwyr y byddai eu sylwadau yn sgil y cyfarfod hwn yn rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y Gyllideb 2020/21. Gofynnwyd iddynt roi gwybod i swyddogion os oedd ganddynt unrhyw gynigion eraill nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad atodedig fel bod modd eu hystyried

Yn dilyn craffu, cytunwyd nodi'r adroddiad.

## 4. **<u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>**

Ystyriodd y pwyllgor y materion canlynol:

<u>Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot (CDLl) 2011-2026 - Ystyried y canlynol:  Adroddiad Adolygu'r CDLl drafft; a rhoi'r gweithdrefnau cyhoeddi/ymgynghori ar waith</u>

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith mai pwrpas cam cyntaf yr adolygiad oedd paratoi a chyhoeddi "Adroddiad Adolygu" sy'n nodi materion allweddol i'w hystyried wrth symud ymlaen â'r CDLl sydd eisoes yn bodoli, a byddai hyn yn nodi'r meysydd lle'r oedd y CDLl presennol yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, yn ogystal â'r meysydd hynny lle bydd angen newidiadau o bosib.

Gofynnodd aelodau a fyddwn yn parhau â'r strategaeth twf a arweinir gan yr economi neu os bydd dewisiadau amgen. Esboniodd swyddogion y byddant yn parhau i edrych ar strategaeth a arweinir gan yr economi, a nodwyd nad oedd dewisiadau eraill yn glir erbyn hyn gan eu bod yn y camau cynnar. Tynnwyd sylw at y ffaith bod yr Agenda Datgarboneiddio'n cael ei gyhoeddi, a byddai swyddogion yn cynnal nifer o ddigwyddiadau cynnwys rhanddeiliaid/y cyhoedd ac yn datblygu'r dewisiadau amgen ar gyfer y cam Strategaeth a Ffefrir.

Holodd yr aelodau ynghylch y pryder cynyddol ynghylch dichonoldeb tir gan fod y dichonoldeb yn gywir ar adeg yr asesiad yn unig. Esboniodd swyddogion fod model/astudiaeth ddichonoldeb ranbarthol newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Nodwyd bod angen i ni wneud pethau'n wahanol yn ystod cam y Safle Ymgeisiol, ac na fyddai safleoedd yn cael eu cynnwys yn y cynllun heb dystiolaeth ddigonol (gan gynnwys asesiadau dichonoldeb).

Esboniodd swyddogion fod diffyg arbenigedd o ran yr amgylchedd hanesyddol a bod angen ymagwedd fwy cydweithredol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y polisi hwn yn dda a bod angen i ni nodi adnoddau i fynd i'r afael â'r materion hyn wrth symud ymlaen.

Esboniodd swyddogion fod cronfa wrth gefn y CDLl ar gael, a bod y CDLl yn cael ei osod yn y gyllideb fel pwysau bob blwyddyn. Nodwyd bod y tair uwch-swydd wedi mynd, felly defnyddiwyd yr arian wrth gefn i brynu arbenigedd i lenwi'r bwlch.

Roedd aelodau'n falch o glywed y byddai'r materion sy'n ymwneud â Thai Amlfeddiannaeth (HMO) yn cael eu hasesu fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y Cynllun Disodli na fyddai ganddo unrhyw ddylanwad nes iddo gael ei fabwysiadu yn 2024. Tynnodd y

swyddogion sylw at y ffaith y byddai seminar yn cael ei gynnal ar 12 Chwefror, 2020 ac anogwyd yr aelodau i fod yn bresennol.

Cynhaliwyd trafodaeth am y cymoedd, a chytunodd aelodau ei fod yn dda ein bod ni'n canolbwyntio ar y Cymoedd. Dywedodd y swyddogion fod angen i ni barhau i'w hystyried ac o bosib gwneud mwy. Byddai twristiaeth yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r cymoedd, er bod cynigion eisoes ar waith mewn meysydd penodol.

Gofynnodd yr aelodau beth fydda'n digwydd gyda'r CDLl o ganlyniad i newid cynghorwyr mewn etholiad newydd (y disgwylir ei chynnal yn 2022) a sut y byddai hyn yn cyflawni'r hyn rydym am ei gael. Esboniodd swyddogion fod hyn yn broblem gan mai 2026 yw'r dyddiad gorffen, ac mae'r CDLl yn cwmpasu cyfnod o 15 mlynedd. Yn 2022 byddai'r cynllun wedi mynd drwy gam ffurfiol cyntaf y broses baratoi: y 'strategaeth a ffefrir'. Unwaith y byddwn wedi cyrraedd yr ail gam ffurfiol, sef y cam 'adnau' (a drefnwyd ar gyfer 2023) ni ellir ei newid gan fod y cyngor yn dweud mai dyma'r cynllun rydym am ei gael. Roedd angen i swyddogion ymdrin â hyn fel rhan o'r CDLl cyntaf lle'r oedd newid i'r weinyddiaeth; roedd y swyddogion wedi cynnal seminar i'r holl aelodau er mwyn trafod materion a oedd yn ymwneud â'r ardal ofodol a'r wardiau a amlinellwyd yr hyn a wnaed yn y gorffennol yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddai swyddogion yn cynnwys yr aelodau trwy gydol y broses, a byddai'r holl benderfyniadau a wnaed gan y cyngor yn cael eu cefnogi â thystiolaeth.

Nodwyd bod cyd-bwyllgor newydd yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â phroblemau cludiant yn Ne-orllewin Cymru. Byddai'r Prif Weithredwr yn ei arwain a'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth yn cefnogi. Byddai agor rheilffordd y cwm yn ddrud iawn.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 5. **<u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>**

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd, yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o

Ddeddf Llywodraeth Leol 1972,
o'r eitemau busnes canlynol
a oedd yn cynnwys datganiadau posib

o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 18c Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

6. CRAFFU CYN PENDERFYNU (PREIFAT)

Ystyriodd y pwyllgor y materion canlynol:

Safle Cyflogaeth Strategol Glannau'r Harbwr Port Talbot - Tir a Hawliau ynghylch Perchnogaeth Cymdeithas Porthladdoedd Prydain Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot - Talu iawndal dan ddarpariaethau Rhan 1 Deddf Iawndal Tir 1971

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Gwaredu rhan o Hen Iard Burrows yn ogystal ag adfer tir a gedwir gan y cyngor

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Canolbwyntio ar y Gymuned - Rhaglen Beilot Monitro Ansawdd Aer Ardal Gyfan

Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**